# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **28 Mawrth, 2023** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Menna Jones** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Gwenllian Williams a Llywela Haf Owain** |
| **Ebost Cyswllt:** | **iaith@gwynedd.llyw.cymru** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Strategaeth Iaith Gwynedd 2023** |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1. Rhoi sêl bendith i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Iaith ddrafft.

2. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol mewn ymgynghoriad a'r aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol i baratoi a chynnal y broses ymgynghori.

---

**RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

---

Mae disgwyl i'r strategaeth iaith nesaf gael ei chyhoeddi ar gyfer Gwynedd erbyn diwedd 2023. Er mwyn cwrdd gyda'r amserlen mae angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth ddrafft ddechrau mis Ebrill.

**--------------------------------------------------------------------------------------------------------------**

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r strategaeth ddrafft hon wedi ei chreu fel dilyniant i waith y strategaeth bresennol (Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23) er mwyn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i hybu a hyrwyddo'r iaith ar draws y sir ac i fodloni'r gofynion statudol a osodir o fewn Safonau'r Gymraeg. Y weledigaeth yw creu strategaeth gynhwysol sy'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Cynhaliwyd sesiynau yn ystod mis Ionawr gydag aelodau Cabinet, aelodau

Pwyllgor Iaith ac aelodau Fforwm Iaith Gwynedd er mwyn cael eu mewnbwn ar gynnwys posib y strategaeth ddrafft.

1.2 **Meysydd gweithredu**

Mae'r strategaeth ddrafft yn ddilyniant i'r un presennol, a hefyd yn dangos sut rydym yn bwriadu cyd-fynd gyda blaenoriaethau Cymraeg 2050, ac o ganlyniad yn cynnwys y meysydd blaenoriaeth canlynol

- **Cynyddu nifer siaradwyr**
- **Cynyddu defnydd Iaith y teulu**
- **Cynyddu defnydd Iaith dysgu**
- **Cynyddu defnydd Iaith y gymuned**
- **Cynyddu defnydd Iaith gwaith a gwasanaeth**
- **Datblygu Seilwaith Ymchwil a thechnoleg**

Ceir gwybodaeth yn y strategaeth ddrafft am ffrydiau gwaith penodol gan y Cyngor i ymateb i'r meysydd, a'r camau y gellir eu cymryd yn y dyfodol.

1.2 **Hyd y strategaeth nesaf**

Penderfynwyd y byddai'n gwneud synnwyr cael strategaeth ar gyfer cyfnod o 10 mlynedd. Bydd hyn yn golygu fod cyfnod y strategaeth yn cyd-fynd gyda chyhoeddi ystadegau'r cyfrifiad, ac yn rhoi dull mesur mwy effeithlon i ni.

1.3 **Targed**

Mae **Safon 145** yn gofyn i ni osod targed yn y strategaeth ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr yn y sir. Dyma'r ffordd y geirir y targed yn y strategaeth ddrafft:

***Rydym am osod targed cyffredinol i weld cynnydd yn y defnydd rheolaidd o'r Gymraeg. Rydym hefyd eisiau gweld 100% o blant Gwynedd yn cael y cyfle i siarad Cymraeg a defnyddio'r iaith yn rheolaidd.***

1.4 **Cwmpas y strategaeth**

Mae'r strategaeth ddrafft yn gosod gweledigaeth ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws y sir gyfan, ond mae'r cynlluniau neu brosiectau sydd yn cael eu cynnig yn canolbwyntio ar feysydd lle y mae gan y Cyngor rym a dylanwad i weithredu. Byddwn yn parhau i gydweithio gyda phartneriaid eraill o fewn y sir sydd hefyd wedi gwneud ymrwymiadau i hybu'r Gymraeg.

1.5 **Monitro a mesur**

Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu yn rheolaidd, ac yn ffurfiol ar ddiwedd y 5ed flwyddyn. Bydd hynny yn rhoi cyfle i ni addasu ac ychwanegu prosiectau wrth ymateb i amgylchiadau ac anghenion allai godi. Dyma'r mesuryddion arfaethedig:

**Mesuryddion**

<u>Cynyddu nifer siaradwyr</u>

- Nifer plant sydd yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.
- Nifer plant sydd yn cael cefnogaeth drwy'r gyfundrefn drochi'r adran addysg.
- Nifer gweithwyr y Cyngor sydd yn derbyn gwersi dysgu Cymraeg.

<u>Cynyddu defnydd o'r Gymraeg</u>

*Maes gweithredu Iaith y blynyddoedd cynnar*

- Data cyrhaeddiad y CSGA o ran nifer y lleoliadau gofal plant, a nifer plant sydd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.
- Nifer cylchoedd Ti a Fi, grwpiau Rhiant a Phlentyn sydd yn cael eu cefnogi/cynnal.
- Nifer y gweithgareddau sydd yn cael eu targedu yn benodol at deuluoedd ifanc/rhieni a babanod gan wasanaethau'r Cyngor.
- Nifer y gweithgareddau teuluol sydd yn cael eu trefnu gan y fenter iaith.
- Nifer ymgyrchoedd rhannu adnoddau a gwybodaeth.

*Maes gweithredu Iaith Dysgu*

- Ystadegau monitro CSGA
- Nifer staff y Cyngor sydd yn derbyn hyfforddiant i wella sgiliau
- Nifer prentisiaethau sydd yn cael eu cynnig gan y Cyngor

- Nifer cyfleoedd hyfforddi/achrediadau sydd yn cael eu cynnig gan y gwasanaeth ieuenctid

*Maes gweithredu Iaith Gwaith a Gwasanaeth*

- Nifer busnesau sydd wedi derbyn cymorth ariannol drwy Gynllun Arfor
- Nifer staff sydd wedi derbyn cefnogaeth i ddysgu Cymraeg neu ddatblygu sgiliau
- Nifer staff sydd yn cymryd rhan mewn cynlluniau cyfeillio

*Maes blaenoriaeth Iaith y Gymuned*

- Nifer gweithgareddau wedi eu cynnal gan wasanaethau'r Cyngor a'r fenter iaith ar gyfer gwahanol grwpiau
- Nifer mentrau cymunedol sydd yn cael eu cefnogi drwy gynlluniau Adfywio ac Economi

*Maes blaenoriaeth Technoleg ac Ymchwil*

- Nifer prosiectau ymchwil sydd wedi eu cynnal gan y Cyngor, neu eu comisiynu gan y Cyngor

1.6 **Cyllid i weithredu'r strategaeth**

Mae disgwyliad amlwg gan Gomisiynydd y Gymraeg i weld prosiectau neu weithgareddau sydd yn deillio yn uniongyrchol o flaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod yn y strategaeth. Bydd yr ymrwymiadau presennol o ran arian prosiect yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn 2024, ynghyd a'r arian i gyflogi swyddog prosiect.  Bydd cyfraniad gan y Cyngor i'r fenter iaith (drwy ariannu pen Swyddog) hefyd yn dod i ben yn 2026. Bydd angen meddwl felly beth yw'r ymrwymiad sydd yn cael ei wneud i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i weithredu ar flaenoriaethau'r strategaeth yn effeithiol.

## 2. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

2.1 Cyn gwneud gwaith pellach ar y strategaeth rydym yn awyddus i gael barn eraill, yn enwedig trigolion Gwynedd ar y strategaeth ddrafft ac ystyried eu sylwadau.

## 3. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

3.1 Os bydd y Cabinet yn rhoi sêl bendith i'r ymgynghoriad cyhoeddus y bwriad yw ei gynnal rhwng 4 Ebrill a 14 Mai. Y cam nesaf fydd cyflwyno dadansoddiad o ganlyniadau'r ymgynghoriad i'r Pwyllgor Iaith a gynhelir ar 27 Mehefin a gofyn am eu mewnbwn hwy i gynorthwyo ffurfio argymhelliad i'r Cabinet ar y Strategaeth derfynol. Gobeithir cyflwyno'r strategaeth derfynol ger bron cyfarfod o'r Cabinet mis Hydref ac yna i'r Cyngor llawn i'w fabwysiadu ar 7 Rhagfyr.

Asesiad Effaith

Mae asesiad effaith cychwynnol wedi ei lunio ar gyfer y strategaeth sydd yn rhagweld effaith gadarnhaol ar boblogaeth Gwynedd. Mae'r asesiad yn cydnabod y posibilrwydd y gallai rhai trigolion deimlo eu bod yn profi effeithiau negyddol, yn gysylltiedig efo nodweddion hil ac anabledd, ac yn nodi sut y mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau cyfle cyfartal i bob un o drigolion Gwynedd gael gweld, dysgu a defnyddio'r Gymraeg. Mae'n nodi bylchau o ran y sylfaen tystiolaeth, a hynny yn bennaf oherwydd diffyg asesiadau effaith unigol ar rai prosiectau sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor ac oherwydd nad yw data Cyfrifiad 2021 wedi ei ddadansoddi yn llawn eto. Bydd yr asesiad a chynnwys y strategaeth ei hun yn cael ei adolygu eto i ystyried y sylwadau fydd yn cael eu derbyn yn yr ymgynghoriad ac yn sgil cryfhau'r sylfaen tystiolaeth.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn llewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae'r Strategaeth wedi ei baratoi gan ddal sylw at y gofynion yma ac unol a'r 5 ffordd o weithio.

Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i dyletswyddau sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig). Yn unol a'r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cynghorau dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu

anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig a dal sylw dyledus at y dyletswydd cymdeithasol economaidd dan Adran 1 o'r Ddeddf. Paratowyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb sydd wedi ei atodi yn Atodiad B. Mae gofyn i'r Cabinet ddal sylw at ei ganfyddiadau wrth ddod i benderfyniad. Nid yw yr asesiad yn adnabod unrhyw ardrawiad negyddol penodol yn deillio o'r penderfyniad.

**8. BARN SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Rwy'n fodlon gyda phriodoldeb yr adroddiad a'r bwriad i gynnal ymgynghoriad ac adrodd yn ôl.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Nid oes gennyf sylwadau ar gynnwys y Strategaeth o safbwynt priodoldeb ariannol.

Mae paragraff 1.6 o'r adroddiad yn cyfeirio at yr adnoddau fydd ar gael yn y dyfodol er mwyn cefnogi'r Strategaeth; mae trefniadau penodol yn eu lle yn y Cyngor er mwyn cyflwyno ceisiadau am adnoddau ychwanegol a disgwyliaf bydd unrhyw gais am adnoddau i gefnogi'r Strategaeth Iaith yn cael eu cyflwyno yn unol â'r trefniadau hynny.

**Atodiadau sydd wedi eu cynnwys gyda'r adroddiad hwn:**

**Atodiad A**: Strategaeth Iaith - Drafft 2023

**Atodiad B**: Asesiad Effaith Strategaeth Iaith – Mawrth 2023